# Beth sy'n gweithio i gefnogi gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl (o ofal sylfaenol i gleifion mewnol) i grwpiau lleiafrifol er mwyn lleihau anghydraddoldebau? Crynodeb o dystiolaeth gyflym

Mawrth 2024

Judit Csontos, Deborah Edwards, Elizabeth Gillen, Juliet Hounsome, Meg Kiseleva, Mala Mann, Abubakar Sha'aban, Olivia Gallen, Mel McCaulay, Elizabeth Doe, Ruth Lewis, Alison Cooper, Adrian Edwards

## Cefndir

Amcangyfrifir y bydd un o bob pedwar o bobl yn profi iechyd meddwl gwael yn ystod eu hoes. Fodd bynnag, mae **grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches** yn profi mwy o rwystrau wrth geisio **cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl** ac yn profi **canlyniadau iechyd meddwl gwaeth** na'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd nad ydynt yn ethnig.

## Nod

Archwilio'r llenyddiaeth ar yr hyn sy'n **gweithio i gefnogi gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl** i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ffoaduriaid a cheiswyr lloches er mwyn **lleihau anghydraddoldebau.**



## Dulliau

Mae ein **Crynodebau o Dystiolaeth Gyflym (RES)** wedi'u cynllunio i ddarparu **cynnyrch ymateb cyflym**. Maen nhw'n seiliedig ar **chwiliad cyfyngedig o adnoddau allweddol ac asesiadau o ddetholiadau.**

Rhoddir **blaenoriaeth** i astudiaethau sy'n cynrychioli synthesis tystiolaeth gadarn. **Ni chynhelir unrhyw arfarniad o ansawdd na synthesis tystiolaeth, a dylid dehongli'r crynodeb yn ofalus.**

## Canfyddiadau allweddol

Er bod **tystiolaeth** ar gael ar wella mynediad a phrofiad gofal iechyd meddwl y grwpiau hyn, yn aml **nid ydynt yn cynnwys cydran arfarnol.**

Roedd yr argymhellion mwyaf cyffredin i wella tegwch gofal iechyd meddwl yn cynnwys:



- **iaith** ac addasiadau diwylliannol;
- **addysg** gweithwyr proffesiynol gofal iechyd;
- cyflogi staff sy'n **amrywiol o ran ethnigrwydd;**
- gwell **darpariaeth gwybodaeth;**
- **gweithio ar y cyd** rhwng gwahanol sectorau;
- hwyluso llwybrau atgyfeirio **a gwella llwybrau;**
- **gwasanaethau arbenigol ac allgymorth** ar gyfer grwpiau lleiafrifol;
- **addysg cleifion** a datblygu sgiliau cleifion;
- cynnwys cymunedau.

## Bylchau yn y Dystiolaeth

Mae **tystiolaeth adolygu gyfyngedig** ynghylch **effeithiolrwydd ymyriadau** i wella mynediad at ofal iechyd meddwl ar draws grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

At hynny, mae tystiolaeth o ymyriadau i gefnogi **mynediad ffoaduriaid a cheiswyr lloches at ofal iechyd sylfaenol neu glinigau arbenigol** (e.e. beichiogrwydd ac ôl-enedigol) **ar gael**, ond ni **ellir echdynnu'r canfyddiadau sy'n ymwneud â gofal iechyd meddwl.**

## Camau Nesaf

Mae'r adroddiad hwn yn arwain at **adolygiad cyflym â ffocws** dilynol, i'w gyhoeddi yn Haf 2024, ar effeithiolrwydd ymyriadau i wella mynediad teg neu gyffredinol at wasanaethau iechyd meddwl gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae dolen i'r protocol adolygu ar gael yma https://osf.io/xpfje/

Mae'r crynodeb llawn o dystiolaeth gyflym ar gael i'w weld yma:
https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2024.02.28.24303432v2